**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MB/FM/1374/14

Bethan Jenkins, AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Bethan.Jenkins@wales.gov.uk

4ydd Ebrill 2014

Annwyl Bethan,

Ysgrifennaf atoch i ymateb i'ch cais a gafwyd yng Nghwestiynau Busnes y Cynulliad ar 18fed Mawrth yn gofyn am ddatganiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar y cynnig i gyflwyno cwmni darparu gwasanaethau'r Gofrestrfa Tir.

Ymatebodd swyddogion Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad hwn gan godi nifer o faterion, yn enwedig mewn perthynas â staff swyddfa'r Gofrestrfa Tir yn Abertawe. Yn eu mysg roedd: y goblygiadau i staff, y mecanwaith a gaiff ei ddefnyddio i drosglwyddo'r staff i'r cwmni arfaethedig, y telerau a'r amodau gwaith wedi'r trosglwyddo, effaith y newidiadau ar yr economi leol a'r diffyg tystiolaeth amlwg i brofi dilysrwydd y newidiadau arfaethedig i sicrhau bod y lefelau uchel yn cael eu cynnal o ran darparu gwasanaethau.

Rydw innau hefyd yn pryderu am y materion hyn ac ysgrifennais at Michael Fallon AS, Gweinidog Busnes a Menter y DU ym mis Chwefror i adael iddo wybod. Rwy'n ymwybodol efallai y bydd goblygiadau difrifol yn y dyfodol mewn perthynas â chyflogi staff y Gofrestrfa Tir petai argymhellion yr ymgynghoriad yn dwyn ffrwyth. Felly, rwyf wedi awgrymu y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu trafodaethau ar y posibilrwydd o ddod o hyd i rolau posibl i staff y Gofrestrfa Tir sydd â sgiliau gwerthfawr a phrofiad, petai'r posibiliadau hyn yn cael eu gwireddu.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 060 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 060 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
yp.prifweinidog@cymru.gsi.gov.uk
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk